| | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD**<br>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>Gwynedd a Môn<br><br>Anglesey & Gwynedd<br>Joint Local Development Plan<br>**EXAMINATION** | Arolygwyr / Inspectors:<br>**HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI**<br>**RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI**<br><br>Swyddog Rhaglen / Programme Officer:<br>**SHARON ELLIS**<br><br>☎01286 679411 ✉SwyddogRhaglen@gwynedd.llyw.cymru<br>Swyddfa'r Cygnor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH |

# NODIADAU CANLLAW I SYLWADWYR

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyn-Gwrandawiad:** | Mehefin 14eg, 2016 am 10.30yb |
| **Lleoliad:** | Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH |
| **Dechrau Gwrandawiadau:** | Medi 6ed, 2016 |
| **Arolygwyr:** | Hywel Wyn Jones BA(Hons) BTP MRTPI<br>Richard Duggan BSc(Hons) DipTP MRTPI |
| **Swyddog Rhaglen:** | Sharon Ellis |
| **Cyfeiriad Gohebiaeth:** | Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH |
| **Ffôn:** | 01286 679411 |
| **Ebost:** | SwyddogRhaglen@gwynedd.llyw.cymru |
| **Safle We:** | www.gwynedd.llyw.cymru/archwiliadannibynnol<br><br>www.ynysmon.gov.uk/cdll |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Paratowyd y Canllawiau yma er mwyn rhoi cymorth i unigolion a chyrff sy'n dymuno bod yn rhan o'r Archwiliad i gadernid Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26 (y 'Cynllun'). Mae'n ofynnol i baratoi cynllun datblygu lleol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

1.2 Daeth yr ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Adnau i ben ar 31 Mawrth 2015. Ymgymerodd y Cynghorau hefyd ag ymgynghoriad 6 wythnos ar Newidiadau â Ffocws, a ddaeth i ben ar 13 Ebrill 2016.

1.3 Mae'r Cynghorau wedi cadarnhau bod tua 1,697 o sylwadau wedi'u derbyn oddi wrth 458 o sylwebyddion gwahanol o fewn y cyfnod o 6 wythnos yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Adnau. Derbyniwyd tua 130 o sylwadau gan 24 sylwebyddion gwahanol i'r Newidiadau â Ffocws.

## 2. Arolygwyr a Swyddog Rhaglen

2.1 Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi Hywel Wyn Jones a Richard Duggan i gynnal yr Archwiliad i gadernid y Cynllun.

2.2 Ms Sharon Ellis yw Swyddog Rhaglen yr Archwiliad. Gweithreda fel swyddog annibynnol i'r Archwiliad o dan gyfarwyddyd yr Arolygwyr. Mi fydd yn gyfrifol am drefnu Rhaglen o wrandawiadau, cynnal Llyfrgell yr Archwiliad, cofnodi a dosbarthu'r deunydd a dderbynnir, a rhoi cymorth trefniadol a gweinyddol i'r Arolygwyr. Mi fydd yn cynghori ar faterion rhaglennu a gweithdrefnol. Os dymuna'r Cynghorau neu gyfranogwyr eraill godi unrhyw fater gyda'r Arolygwyr, dylid gwneud hyn drwy'r Swyddog Rhaglen. Mae ei manylion cyswllt ar flaen y nodyn yma.

## 3. Pwrpas yr Archwiliad

3.1 Pwrpas yr Archwiliad yw i ystyried cadernid y Cynllun. Noder bod 'Archwiliad' yn cwmpasu'r broses gyfan o archwilio'r Cynllun o adeg ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru hyd at gyflwyno adroddiad yr Arolygwyr i'r Cynghorau.

3.2 Rhagdybir ar ddechrau'r Archwiliad bod Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi cyflwyno cynllun sydd o'u safbwynt nhw yn gynllun cadarn. Tra'n archwilio i'w gadernid mae'n ofynnol i'r Arolygwyr ystyried y sylwadau a gyflwynwyd ond i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r profion cadernid fel a ddisgrifir gan Bolisi Cynllunio Cymru. Nid oes angen i'r Arolygwyr ystyried pob pwynt a godwyd ym mhob gwrthwynebiad nag i adrodd arnynt.

3.3 Bwriedir i sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad ddilyn proses ymchwiliol dan arweinyddiaeth yr Arolygydd, yn hytrach na'r ymdriniaeth fwy dadleuol a fabwysiadwyd gan ymchwiliad cynllun lleol/cynllun datblygu unedig. Mae'r testunau a ddewiswyd i'w trafod yn deillio o'r profion

cadernid a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y camau adnau a chyflwyno.

3.4 Ni thrafodir rhinweddau polisi cenedlaethol. Mi fydd yr Archwiliad yn ystyried goblygiadau polisi cenedlaethol sy'n effeithio ar ardaloedd a thestunau'r Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth pwyntiau a godwyd gan sylwebyddion.

3.5 Ar ôl cau'r Archwiliad mi fydd yr Arolygwyr yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Cynghorau gyda'u canlyniadau a'u hargymhellion ar unrhyw gamau neu newidiadau sydd yn berthnasol i gadernid y Cynllun. Mae'r argymhellion yma yn orfodol ar y Cynghorau ac mae'n ofynnol iddynt newid y Cynllun yn sgil yr argymhellion hyn ac i fabwysiadu'r Cynllun yn fuan wedi hynny.

3.6 Ceir canllawiau a chyngor ychwanegol ynglŷn â chadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a chanllawiau a gynhyrchir gan yr Arolygiaeth Cynllunio sydd i'w gael ar ei safle we. Dylai cyfranogwyr fod yn gyfarwydd gyda: PCC, Pennod 2 (Awst 2015) a Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol, Ail Rifyn, Awst 2015.

3.7 Mae'r newidiadau i Bennod 2 PCC yn cynnwys profion cadernid newydd sydd yn disodli'r rhai gafodd eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Cymru. Yn fras mae'r profion newydd yn gofyn am asesiad o'r canlynol:

1. A yw'r cynllun yn ffitio? (h.y. a yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?);
2. A yw'r cynllun yn briodol (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?); a
3. A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).

Nid oes trefniadau trosglwyddo yn eu lle i weithredu'r profion newydd. Felly maent yn sail yr Archwiliad. Er hynny, mae'n amlwg eu bod yn gorgyffwrdd yn helaeth gyda'r hen brofion cadernid. Ni fydd angen i'r partïon gyflwyno gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i'r newidiadau hyn a gall yr Arolygwyr gadarnhau na fydd buddiannau unrhyw un yn cael eu niweidio gan amseriad cyhoeddi'r profion newydd.

## 4. Cyfarfod Cyn-Gwrandawiad

4.1 Cynhelir y Cyfarfod Cyn-Gwrandawiad (CCG) am 10.30yb ar 14eg Mehefin 2016, yn y lleoliad a nodir ar flaen y ddogfen hon. Pwrpas y CCG yw esbonio a thrafod materion trefniadol a gweinyddol sy'n ymwneud â rheolaeth yr Archwiliad. Atodir agenda i'r CCG i'r nodyn hwn. **Ni fydd cynnwys a rhinweddau'r Cynllun na'r sylwadau yn cael eu trafod yn y cyfarfod yma.**

4.2 Yn y CCG mi fydd yr Arolygwyr yn holi cyfres o gwestiynau trefniadol i gadarnhau bod y Cynllun wedi'i baratoi i gydymffurfio â threfniadau statudol Adran 64(5)(a) o Ddeddf 2004 a'r rheoliadau perthnasol, ac wedi

ei gefnogi gydag Asesiad Cynaliadwyedd. Mi fyddant hefyd yn ceisio eglurhad ynglŷn â Strategaeth Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r ddogfennaeth berthnasol i'w cael ar wefan yr Archwiliad.

4.3 Ychydig amser cyn y CCG bydd amserlen ddrafft o'r sesiynau gwrandawiadau a'u pwrpas yn cael ei ddosbarthu i'r cyfranogwyr. Ar ôl y CCG bydd nodyn o'r cyfarfod, ynghyd â Rhaglen y Gwrandawiadau fydd yn cynnwys agenda o'r materion a phynciau i'w trafod ar gael i'r sylwebyddion. Bydd y Cynghorau yn hysbysebu dechrau'r gwrandawiadau o leiaf 6 wythnos cyn Medi 6$^{ed}$, 2016.

## 5. Ffurf o ystyried sylwadau

5.1 Ystyrir sylwadau ar y Cynllun mewn un o ddwy ffurf:

- Sylwadau ysgrifenedig - ar sail sylwadau gwreiddiol gyda, lle bo angen hynny, ymateb y Cynghorau. Os bydd angen esboniad manylach mi fydd yr Arolygwyr yn gofyn am wybodaeth bellach. Ystyrir mwyafrif o sylwadau trwy'r ffurf hyn. Ni fydd y sylwadau yma yn cael eu trafod mewn gwrandawiad ac nid oes angen mynychu sesiwn gwrandawiad;
- Sylwadau ar lafar – pan mae sylwebyddion wedi nodi dymuniad i gael gwrandawiad ar lafar, bydd pwyntiau perthnasol yn cael eu trafod mewn sesiwn gwrandawiad o'r Archwiliad, lle bydd y Cynghorau a chyfranogwyr eraill yn trafod pwyntiau ar y prif faterion sydd wedi eu hadnabod gan yr Arolygydd o fewn strwythur trafodaeth wybodus.

5.2 **Rhoddir yr un pwysau i'r ddwy ffurf a bydd yr Arolygwyr yn talu sylw cyfartal i safbwyntiau sydd wedi'u cyflwyno ar lafar neu yn ysgrifenedig.**

5.3 Nid yw rhai sylwebyddion wedi datgan pa fodd dymunent i'w sylwadau gael eu hystyried. Yn yr achosion hyn bwrir eu bod am i'w sylwadau gael eu hystyried ar sail eu cyflwyniadau ysgrifenedig oni bai eu bod yn hysbysu'r Swyddog Rhaglen yn ysgrifenedig erbyn **Gorffennaf 1af, 2016. Dim ond sylwebyddion sy'n ceisio newid penodol i'r Cynllun sydd â'r hawl i gyfranogi mewn sesiwn gwrandawiad o'r Archwiliad. Nid oes hawl gan gefnogwyr o'r CDLl, ei bolisïau neu ddosraniadau gymryd rhan mewn sesiwn gwrandawiad.**

### Safleoedd Amgen

5.4 Caniateir i'r rhai sydd yn cynnig safleoedd amgen i ymddangos ond, gan nad yw gwrthwynebwyr safleoedd amgen yn ceisio newid i'r Cynllun, nid oes hawl ganddynt gymryd rhan yn y sesiynau gwrandawiad sy'n ystyried y safleoedd hynny.

5.5 Dylai strategaeth, polisiau a dynodiadau CDLl fod yn realistig ac yn addas wrth ystyried dewisiadau eraill priodol, ac wedi eu selio ar dystiolaeth gadarn. Mae'n debygol fod yna nifer o ffyrdd dilys sut y gall awdurdod cynllunio lleol gyfarfod â gofynion ei cymuned. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynhyrchu cynllun cadarn. Dydy hyn ddim o reidrwydd yn golygu ei fod yn cynnig yr ateb gorau ac nid swyddogaeth yr Arolygwyr yw gwneud gwelliannau i gynllun cadarn.

5.6 Man cychwyn yr Arolygwyr fydd cyflwyniad y Cynghorau o gynllun, strategaeth, polisïau a dosraniadau a ystyrir ganddynt fel rhai cadarn. Ni fydd yr Arolygwyr yn edrych tu hwnt i strategaeth, polisïau a dosraniadau'r CDLl oni bai eu bod yn dod i gasgliad gwahanol. Fel nodwyd uchod, ni ddisgwylir i'r Arolygwyr ystyried pob pwynt nac ychwaith adrodd ar safleoedd amgen unigol. Os ydy'r Arolygwyr yn ystyried y dosraniadau yn y CDLl yn rhai cadarn, mae'n annhebygol y caiff safleoedd amgen eu henwi yn yr adroddiad.

## 6. Gweithdrefn Sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad

6.1 Bydd sesiynau gwrandawiadau'r Archwiliad yn dechrau am 9.30yb ar Medi 6ed, 2016. Fel arfer, bydd sesiynau eraill hefyd yn dechrau am 9.30yb gyda thoriad i ginio tua 1.00yp. Bydd sesiynau'r prynhawn yn dechrau am 2.00yp.

6.2 Bydd y sesiynau ar ffurf trafodaeth wedi'u harwain gan yr Arolygydd. Mi all sylwebyddion alw ar gynrychiolwyr proffesiynol a gallant ofyn cwestiynau ond ni fydd cyflwyniad ffurfiol o dystiolaeth, croesholi na chyflwyniadau ffurfiol. Nid oes angen cael cynrychiolwyr cyfreithiol yn bresennol.

6.3 Cyn y sesiynau bydd yr Arolygwyr yn gosod agenda a fydd yn cynnwys pwyntiau trafod ar gyfer pob pwnc. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y materion hyn. Bydd yr Arolygwr yn dechrau drwy wneud ychydig sylwadau ar y materion i'w trafod cyn gwahodd cyfranogwyr i ymgymryd â'r drafodaeth. Bydd y sesiwn yn parhau dan arweiniad yr Arolygydd wrth iddo gynnwys cyfranogwyr yn y drafodaeth mewn modd i'w alluogi i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn dod i gasgliad clir ar y mater.

6.4 Bydd cyfranogwyr sesiynau penodol yn derbyn copi o ddatganiadau a wahoddwyd gan yr Arolygwyr a dylai sylwebyddion fod yn gyfarwydd â'u cynnwys. Disgwylir i gyfranogwyr fod yn gyfarwydd â chynnwys y datganiadau er bydd cyfle i gyfranwyr gyfeirio at, ac ymhelaethu ar, bwyntiau perthnasol lle bo angen.

6.5 Bydd yr Arolygwyr yn rheoli'r drafodaeth er mwyn sicrhau bod y sesiynau gwrandawiad yn effeithiol. I'r perwyl hwn byddant yn ceisio sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir yn gryno ond yn ddigonol er mwyn dod i gasgliad gwybodus.

## 7. Rhaglen yr Archwiliad

7.1 Caiff pob ymdrech ei wneud i gadw at y Rhaglen, ond gall newidiadau hwyr fod yn anorfod. Bydd y Swyddog Rhaglen yn hysbysu cyfranogwyr o unrhyw newidiadau hwyr i'r amserlen, ond mae'n gyfrifoldeb ar y cyfranogwyr i gadw golwg ar y trefniadau a'r Rhaglen.

## 8. Paratoi a chyflwyno deunydd arall

8.1 Mae'r Cynghorau wedi darparu rhestr o ddogfennau cyflwyniad sydd ar gael i'w gweld yn Llyfrgell yr Archwiliad a hefyd yn ddigidol ar wefan yr Archwiliad. Hefyd ar gael yn y Llyfrgell, bydd polisi a chanllawiau cenedlaethol perthnasol, papurau cefndirol, ac unrhyw ddogfennau eraill y byddant yn debygol o gyfeirio atynt. Dylai'r rhestr hon o Ddogfennaeth Ategol gynrychioli'n llawn y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cynghorau fel sail i'r Archwiliad. Dylai cyfranogwyr sicrhau bod unrhyw ddogfennaeth y dymunant gyfeirio ati wedi'i chynnwys ar restr Dogfennau Craidd, gan drefnu hefyd i'r dogfennau gael eu danfon at y Swyddog Rhaglen (bydd angen tri chopi). Dylai cyfranogwyr wirio'r rhestr yn rheolaidd oherwydd mae'n debygol o gynyddu wrth i'r Archwiliad fynd yn ei flaen.

### Cyflwyno datganiadau ysgrifenedig ychwanegol a deunydd arall

8.2 Dylai'r sylwadau a gyflwynwyd eisoes gynnwys yr holl bwyntiau, dogfennau a thystiolaeth i gefnogi achos y sylwebyddion. Felly, ni ddylai fod angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi sylwadau gwreiddiol. Er ei bod hi'n bosib bod sylwebyddion wedi ymateb yn gynharach yn y broses o baratoi'r cynllun, dylid nodi mai'r unig sylwadau fydd gan yr Arolygwyr yw'r rhai a gyflwynwyd ers i'r cynllun adnau gael ei gyflwyno.

8.3 O hyn ymlaen, dim ond y materion a phynciau y mae'r Arolygwyr wedi'u hadnabod y dylid cyfeirio atynt mewn datganiadau. Bydd angen i'r Cynghorau a'r sylwebwyr ar destunau penodol gyflwyno eu hymateb i'r cwestiynau drwy gyflwyno datganiadau o leiaf 3 wythnos cyn dechrau'r gwrandawiadau h.y. erbyn **Awst 16$^{eg}$, 2016**.

8.4 Dylai datganiadau pellach oddi wrth sylwebyddion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel (polisi/paragraff/tudalen y Cynllun)?
- Pa brofion cadernid (gweler paragraff 2.5.11 of PCC), nad sydd yn cael eu cwrdd?
- Pam mae'n methu?
- Sut medrir gwneud y Cynllun yn gadarn?
- Beth yn union yw'r newid/geiriad y gofynnir amdano?

8.5 Disgwylir i'r Cynghorau gyflwyno ymateb cyffredinol ar bob testun i esbonio pam eu bod yn ystyried y Cynllun yn un cadarn a pham, os yn berthnasol, y maent o'r farn y byddai newidiadau a geisir gan eraill yn peri i'r Cynllun fod yn anniogel.

8.6 Dylai'r holl ddatganiadau gyflwyno prif elfennau'r achos oherwydd nid cyfle i godi pwyntiau neu dystiolaeth o'r newydd yw'r gwrandawiad. Dylai datganiadau sylwebyddion ganolbwyntio ar y materion a nodwyd gan yr Arolygwyr cyn belled ag y maent yn berthnasol i'w sylwadau. Nid oes angen cyflwyno datganiad os ydy'r holl bwyntiau eisoes wedi eu cynnwys yn y sylwadau gwreiddiol, ond gofynnir i gyfranogwyr gadarnhau gyda'r Swyddog Rhaglen os na fwriedir cyflwyno datganiad.

8.7 Dylai cyfranogwyr geisio cytuno ar faterion ffeithiol ac ystadegol cyn dechrau'r gwrandawiad ac anogir pawb i gynnal deialog gyda'r Cynghorau a chyfranogwyr eraill o flaen llaw. Mae Datganiadau o Dir Cyffredin yn ddull effeithiol o ganolbwyntio sylw ar y materion pwysig, a dylid eu cyflwyno o fewn y terfyniadau amser a amlinellwyd uchod.

8.8 Bydd angen 4 copi o bob datganiad[1]. Ni ddylai'r datganiadau fod yn fwy na 3,000 o eiriau ar unrhyw fater neu bwnc. Gall datganiad sydd yn rhy hir neu sy[1]'n cynnwys deunydd ail adroddllyd neu amherthnasol gael ei ddychwelyd. Dylai unrhyw wybodaeth dechnegol fod yn berthnasol a chael ei gynnwys mewn atodiad. Dylid cyflwyno deunydd cefnogol angenrheidiol yn unig. Nid oes angen cynnwys rhannau o ddogfennau sydd yn llyfrgell yr Archwiliad. Nid oes angen datganiadau crynodedig. Dylid cyflwyno datganiadau ar bapur A4 wedi eu tyllu ddwywaith at ddibenion ffeilio, ond heb eu rhwymo. Dylai unrhyw gynllun neu ddiagram gael ei blygu i faint A4. Dylid nodi cyfeirnod rhif sylw'r Cynghorau ac, os yn bosib, gyflwyno'r wybodaeth yn electronig hefyd.

8.9 Disgwylir i bob cyfranogwr lynu wrth yr amserlen cyflwyno datganiadau ychwanegol. Mae'n annhebyg y bydd datganiadau hwyr neu bapurau ychwanegol yn cael eu derbyn oherwydd gall hyn danseilio trefniadau ac achosi annhegwch, ac o bosib arwain at ohirio gwrandawiad.

## 9. Argaeledd Gwybodaeth

9.1 Bydd y Swyddog Rhaglen yn cadw Llyfrgell yr Archwiliad yn ei Swyddfa ac ar safle we'r Archwiliad. Bydd hwn yn cynnwys copïau o'r Cynllun a dogfennau cysylltiedig, yr holl sylwadau, y dogfennau a gyflwynwyd a rhai ategol ynghyd ag unrhyw sylwadau ychwanegol a datganiadau a dderbyniwyd. Mi fydd y Swyddog Rhaglen yn goruchwylio'r Llyfrgell ac, o gael rhybudd rhesymol, ar gael i gynorthwyo unrhyw un sydd am ddarllen neu gopïo dogfennau.

9.2 Bydd y Swyddog Rhaglen yn cadw rhestr o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd. Bydd y rhestr dogfennau, fersiwn ddiweddaraf Rhaglen y

[1] Dim ond 2 gopi caled bydd angen os anfonir copi electroneg yn ogystal.

sesiynau gwrandawiadau ac unrhyw ddeunydd perthnasol arall sydd ar gael ar hysbysfwrdd yr Archwiliad yn lleoliad y sesiynau gwrandawiadau. Bydd deunydd perthnasol hefyd ar gael ar dudalen yr Archwiliad ar safleoedd we'r Cynghorau. Dylai unrhyw berson sydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig gysylltu â'r Swyddog Rhaglen o flaen llaw er mwyn gwneud trefniadau addas.

**10. Trefniadau Ymweliadau Safle**

10.1 Er mwyn ymgyfarwyddo â'r Siroedd, mi fydd yr Arolygwyr yn teithio'n annibynnol o amgylch yr ardal ac yn ymweld â safleoedd y cyfeiriwyd atynt gan sylwebyddion. Os nad oes modd gweld safle o ffordd gyhoeddus neu safle cyhoeddus arall mae'n bosib y bydd angen i'r Cynghorau a'r sylwebydd neu berchennog tir fod yn bresennol er mwyn i'r Arolygwyr gael mynediad i'r safle. Ni fydd cyfle i gyflwyno unrhyw sylwadau i'r Arolygwyr yn ystod yr ymweliadau hyn.

**11. Cau'r Archwiliad**

11.1 Bydd yr Archwiliad yn parhau ar agor tan i adroddiad yr Arolygwyr cael ei gyflwyno i'r Cynghorau. Er hynny, ni fydd yr Arolygwyr yn derbyn unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ychwanegol oni bai eu bod yn gofyn yn benodol amdano. Mae'n debygol y bydd unrhyw ohebiaeth hwyr neu sydd heb ei wahodd yn cael ei ddychwelyd.

**12. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygwyr i'r Cynghorau**

12.1 Ar ôl i'r Archwiliad gau, bydd yr Arolygwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gydag argymhellion gorfodol i'r Cynghorau. Bydd y dyddiad cyflwyno yn ddibynnol ar gynnwys, hyd a helaethrwydd yr Archwiliad, ac mi fydd yr Arolygwyr yn cadarnhau'r dyddiad tebygol ar ddiwedd sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad.

**DYDDIADAU PWYSIG**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod Cyn-Gwrandawiad** | **Mehefin 14$^{eg}$, 2016** |
| **Cyflwyno datganiadau ysgrifenedig mewn ymateb i Materion a Phynciau i'w Archwilio** | **Awst 16$^{eg}$, 2016** |
| **Dechrau Sesiynau Gwrandawiad** | **Medi 6$^{ed}$, 2016** |